OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 1854 (Cy.204)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *16 Gorffennaf 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Medi 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymgynghori, yn unol ag adran 3(7) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997(**1**), â'r cyrff hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn briodol ac â chynrychiolyddion ysgolion sy'n darparu lleoedd a gynorthwyir o dan adran 2(1) o'r Ddeddf honno.

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 3(1), (2), (5) a (9) o'r Ddeddf honno ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Medi 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ysgol sy'n dechrau ar 1 Medi 2003 neu wedyn.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997(**3**)fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 10(4) a (6), yn lle "£1,465" ym mhob man lle y'i gwelir, rhoddir "£1,500".

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 2, yn lle "£11,368" rhoddir "£11,626".

(4) Yn lle'r tabl sy'n dilyn paragraff 2(1) o'r Atodlen honno, rhoddir y tabl canlynol —

(**1**) 1997 p.59. Diwygiwyd adran 3 gan adran 130 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31).

(**2**) Trosglwyddwyd Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1997/1968, a ddiwygiwyd gan O.S. 1998/1726, O.S. 1998/1966, O.S. 1999/1504, O.S. 2000/1938 (Cy.136), O.S. 2001/2680 (Cy.221), ac O.S. 2002/1879 (Cy.188).

**"TABLE**

| *(1)* *Part of relevant income to which specified percentage applies* | *(2)* *Only assisted pupil (%)* | *(3)* *Each of two assisted pupils (%)* | *(4)* *Each of three assisted pupils (%)* |
|---|---|---|---|
| That part (if any) which exceeds £11,460 but does not exceed £12,461 | 9 | 6.75 | 5.25 |
| That part (if any) which exceeds £12,461 but does not exceed £13,478 | 12 | 9 | 7 |
| That part (if any) which exceeds £13,478 but does not exceed £15,495 | 15 | 11.25 | 8.75 |
| That part (if any) which exceeds £15,495 but does not exceed £18,606 | 21 | 15.75 | 12.25 |
| That part (if any) which exceeds £18,606 but does not exceed £22,660 | 24 | 18 | 14 |
| That part (if any) which exceeds £22,660 | 33 | 24.75 | 19.25" |

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D.Elis-Thomas*

16 Gorffennaf 2003 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997 ("Rheoliadau 1997") mewn perthynas â blwyddyn ysgol yn dechrau ar 1 Medi 2003 neu wedyn. Mae Rheoliadau 1997 yn rhagnodi trefniadau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i barhau i gael lleoedd a gynorthwyir mewn ysgolion annibynnol yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997, er bod y cynllun cymorth lleoedd wedi'i ddileu gan adran 1 o'r Ddeddf honno.

Mae'r swm sydd i'w dynnu yn yr incwm "perthnasol" mewn perthynas â pherthnasau dibynnol o dan reoliad 10(4) a (6) o Reoliadau 1997 yn cael ei gynyddu o £1,465 i £1,500.

Ar lefel incwm benodol, neu o dan y lefel honno, nid yw'r ffioedd yn cael eu casglu o gwbl. Mae'r lefel honno yn cael ei chynyddu i £11,626 yn lle £11,368, gyda chynnydd cyfatebol yn y swm nad yw'n cael ei gasglu os yw'r incwm "perthnasol" yn fwy na'r swm hwnnw.